OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1521 (Cy. 178)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Newid Categori) (Cymru) 2015

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag ymdrin â gwneud offerynnau llywodraethu newydd ar gyfer ysgol a fydd yn newid ei chategori yn unol â chynnig sy'n cael ei wneud o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Mae rheoliad 2 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae rheoliad 3 yn ymdrin â sut y dylai'r offeryn llywodraethu newydd gael ei wneud.

Mae rheoliadau 4 – 6 yn darparu ar gyfer ailgyfansoddi'r corff llywodraethu pan fydd ysgol yn newid categori. Caniateir i lywodraethwyr penodol barhau yn eu swyddi a gwneir darpariaeth ar gyfer diswyddo llywodraethwyr sy'n rhai gormodol yn ôl gofynion yr offeryn llywodraethu newydd.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1521 (W. 178)

# EDUCATION, WALES

## The Government of Maintained Schools (Change of Category) (Wales) Regulations 2015

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make provision in respect of dealing with the making of a new instrument of government for a school that will be changing its category in accordance with a proposal made under the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013.

Regulation 2 defines a number of words and expressions used in the Regulations.

Regulation 3 deals with how the new instrument of government should be made.

Regulations 4 – 6 provide for the reconstitution of the governing body when a school changes category. Certain governors are allowed to remain in office and provision is made for the removal of governors who are surplus to the requirements of the new instrument of government.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1521 (Cy. 178)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Newid Categori) (Cymru) 2015

*Gwnaed* *14 Gorffennaf 2015*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *16 Gorffennaf 2015*

*Yn dod i rym* *1 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 97 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(**1**) a pharagraff 38 o Atodlen 4 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Newid Categori) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 1 Medi 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001(**2**); a

(b) Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005(**3**).

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 2013 dccc 1.
(**2**) O.S. 2001/2678 (Cy.219).
(**3**) O.S. 2005/2916 (Cy.213).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1521 (W. 178)

# EDUCATION, WALES

## The Government of Maintained Schools (Change of Category) (Wales) Regulations 2015

*Made* *14 July 2015*

*Laid before the National Assembly for Wales* *16 July 2015*

*Coming into force* *1 September 2015*

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by section 97 of and paragraph 38 of Schedule 4 to the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013(**1**) make the following Regulations:

**Title, commencement, application and revocation**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Government of Maintained Schools (Change of Category) (Wales) Regulations 2015 and they come into force on 1 September 2015.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) The following Regulations are revoked—

(a) the Change of Category of Maintained Schools (Wales) Regulations 2001(**2**); and

(b) the Change of Category of Maintained Schools (Wales) (Amendment) Regulations 2005(**3**).

**Interpretation**

**2.** In these Regulations—

(**1**) 2013 anaw 1.
(**2**) SI 2001/2678 (W 219).
(**3**) SI 2005/2916 (W 213).

ystyr "y corff llywodraethu" ("*the governing body*") yw corff llywodraethu'r ysgol y mae newid categori yn cael ei gynnig neu, yn ôl y digwydd, yn digwydd mewn cysylltiad â hi;

ystyr "y cyfnod gweithredu" ("*the implementation period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y cymeradwyir y cynigion neu y penderfynir arnynt o dan adrannau 50, 51 neu 53 o' Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac sy'n dod i ben ar y dyddiad gweithredu;

ystyr "y dyddiad gweithredu" ("*the implementation date*") yw'r dyddiad a bennir yn y cynigion fel y dyddiad pryd y bwriedir i'r newid categori ddigwydd;

ystyr "Rheoliadau 2005" ("*the 2005 Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(**1**);

ystyr "Rheoliadau 2014" ("*the 2014 Regulations*") yw Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014(**2**).

"the 2005 Regulations" ("*Rheoliadau 2005*") means the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005(**1**);

"the 2014 Regulations" (*"Rheoliadau 2014")* means the Federation of Maintained Schools (Wales) Regulations 2014(**2**);

"the governing body" ("*y corff llywodraethu*") means the governing body of the school in respect of which a change of category is proposed or, as the case may be, takes place;

"the implementation date" ("*y dyddiad gweithredu*") means the date specified in the proposals as the date on which it is proposed that the change of category should take place; and

"the implementation period" ("*y cyfnod gweithredu*") means the period commencing on the date proposals are approved or determined under sections 50, 51 or 53 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and ending on the implementation date.

**Yr offeryn llywodraethu**

**3.**—(1) Rhaid i'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol sicrhau erbyn diwedd y cyfnod gweithredu fod offeryn llywodraethu newydd yn cael ei wneud ar gyfer yr ysgol yn unol â' Rheoliadau 2005 neu Reoliadau 2014 (yn ôl y digwydd).

(2) Mae'r offeryn llywodraethu newydd yn cymryd effaith o ddyddiad ei wneud at ddiben ailgyfansoddi'r corff llywodraethu ond ni fydd yn effeithio ar gyfansoddiad y corff llywodraethu sy'n rhedeg yr ysgol tra'n aros am y dyddiad gweithredu.

(3) At bob diben arall, mae'r offeryn llywodraethu newydd yn cymryd effaith o'r dyddiad gweithredu.

**The instrument of government**

**3.**—(1) The governing body and the local authority must secure by the end of the implementation period that a new instrument of government is made for the school in accordance with the 2005 Regulations or the 2014 Regulations (as the case may be).

(2) The new instrument of government takes effect from the date of making for the purpose of reconstituting the governing body but will not affect the constitution of the governing body conducting the school pending the implementation date.

(3) For all other purposes, the new instrument of government takes effect from the implementation date.

(**1**) O.S. 2005/2914 (Cy.211) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 (O.S.2005/3200 (Cy.236)); a chan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (O.S. 2006/873 (Cy.81)) a chan Reoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/944 (Cy.80)), a chan Reoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/2544 (Cy.206)), a chan Orchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1142 (Cy.101)), a chan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2124 (Cy.207)).

(**2**) O.S. 2014/1132 (Cy. 111)

(**1**) S.I. 2005/2914 (W.211) as amended by the School Councils (Wales) Regulations 2005 (S.I.2005/3200 (W.236)); and by the Staffing of Maintained Schools (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/873 (W.81)) and by the Staffing of Maintained Schools (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2007 (S.I. 2007/944 (W.80)), and by the Education (Miscellaneous Amendments relating to Safeguarding Children) (Wales) Regulations 2009 (S.I. 2009/2544 (W.206), and by the Local Education Authorities and Children's Services Authorities (Integration of Functions) (Subordinate Legislation) (Wales) Order 2010 (S.I. 2010/1142 (W.101)), and by the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013 (S.I. 2013/2124 (W.207)).

(**2**) S.I. 2014/1132 (W.111).

**Ailgyfansoddi'r corff llywodraethu**

**4.**—(1) Rhaid i'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol sicrhau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r cyfnod gweithredu (a beth bynnag o fewn cyfnod o 3 mis gan ddechrau ar y dyddiad gweithredu), fod y corff llywodraethu yn cael ei ailgyfansoddi yn unol â'r offeryn llywodraethu newydd a' Rheoliadau 2005 neu Reoliadau 2014 (yn ôl y digwydd).

(2) Rhaid i'r corff llywodraethu arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau hyn mewn ffordd a fydd yn 'galluogi'r awdurdod lleol i gyflawni ei ddyletswyddau yntau o dan baragraff (1).

**Llywodraethwyr presennol yn parhau yn eu swyddi**

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i unrhyw aelod o gorff llywodraethu presennol y mae offeryn llywodraethu newydd wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r corff o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 6, bydd llywodraethwr y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yn parhau yn ei swydd o'r dyddiad gweithredu (neu ddyddiad gwneud yr offeryn llywodraethu newydd os yw'n ddiweddarach) fel llywodraethwr yn y categori cyfatebol sy'n ofynnol o dan yr offeryn llywodraethu newydd (pan fo categori cyfatebol yn bodoli).

(3) Bydd aelod o gorff llywodraethu presennol sy'n parhau yn llywodraethwr o dan baragraff (2) yn dal ei swydd am weddill y tymor y cafodd y llywodraethwr hwnnw ei benodi neu ei ethol ar ei gyfer yn wreiddiol.

(4) Ni chaiff trafodion y corff llywodraethu eu hannilysu am fod gan yr ysgol fwy o lywodraethwyr mewn categori penodol na'r hyn y darperir ar ei gyfer gan yr offeryn llywodraethu newydd, tra'n aros i'r llywodraethwyr gormodol gael eu diswyddo o dan reoliad 6.

**Llywodraethwyr gormodol**

**6.**—(1) Pan fo'r canlynol yn digwydd, sef—

(a) bod gan ysgol fwy o lywodraethwyr ar neu ar ôl y dyddiad gweithredu mewn categori penodol na'r hyn sy'n ofynnol fel llywodraethwyr yn y categori hwnnw o dan yr offeryn llywodraethu newydd; a

(b) bod y gormodedd heb ei ddileu drwy ymddiswyddiadau,

bydd y nifer yn y categori hwnnw sy'n ofynnol i ddileu'r gormodedd yn peidio â dal eu swyddi yn unol â pharagraffau (2) a (3).

**Reconstitution of governing body**

**4.**—(1) The governing body and the local authority must secure that, as soon as reasonably practicable after the commencement of the implementation period (and in any event within a period of 3 months beginning on the implementation date), the governing body is reconstituted in accordance with the new instrument of government and the 2005 Regulations or the 2014 Regulations (as the case may be).

(2) The governing body must exercise its functions under the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and these Regulations in a manner calculated to enable the local authority to fulfil its duties under paragraph (1).

**Current governors continuing in office**

**5.**—(1) Paragraph (2) applies to any member of a current governing body in respect of which a new instrument of government has been made under these Regulations.

(2) Subject to regulation 6, a governor to whom this paragraph applies continues in office from the implementation date (or the date of making the new instrument of government if later) as a governor of the corresponding category required by the new instrument of government (where a corresponding category exists).

(3) A member of a current governing body who continues as a governor under paragraph (2) holds office for the remainder of the term for which that governor was originally appointed or elected.

(4) The proceedings of the governing body are not invalidated by the school having more governors of a particular category than are provided for by the new instrument of government, pending the removal of surplus governors under regulation 6.

**Surplus governors**

**6.**—(1) Where—

(a) on or after the implementation date the school has more governors of a particular category than are required as governors of that category by the new instrument of government; and

(b) the excess is not eliminated by resignations,

such number of that category as required to eliminate the excess will cease to hold office in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) Ar sail hyd eu gwasanaeth y penderfynir pa lywodraethwyr sydd i beidio â dal eu swyddi, a'r llywodraethwr sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod di-dor byrraf ar hyn o bryd (p'un ai fel llywodraethwr un categori neu fwy nag un) fydd y cyntaf i beidio â dal ei swydd.

(3) Pan fo angen, at ddiben paragraff (2), dewis un neu ragor o lywodraethwyr o blith grŵp sy'n gyfartal o ran hyd gwasanaeth, rhaid gwneud hynny drwy fwrw coelbren.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, mae noddwr-lywodraethwyr a enwebir gan gategori penodol o berson i'w trin fel petaent yn gategori ar wahân o lywodraethwyr.

(5) Ni fydd unrhyw weithdrefn a nodir yn yr offeryn llywodraethu newydd ar gyfer diswyddo llywodraethwyr sefydledig gormodol yn gymwys ar gyfer ailgyfansoddi'r corff llywodraethu o dan y Rheoliadau hyn.

(2) The governors who are to cease to hold office will be determined on the basis of seniority, the governor whose current period of continuous service (whether as a governor of one or more than one category) is the shortest being the first to cease to hold office.

(3) Where it is necessary for the purpose of paragraph (2) to select one or more governors from a group of equal seniority, it must be done by drawing lots.

(4) For the purpose of this regulation, sponsor governors nominated by a particular category of person are treated as if they constituted a separate category of governor.

(5) Any procedure set out in the new instrument of government for the removal of excess foundation governors will not apply to the reconstitution of the governing body under these Regulations.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru
14 Gorffennaf 2015

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers
14 July 2015

©ⓗHawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1521 (Cy. 178)

## ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Newid Categori) (Cymru) 2015

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2015 No. 1521 (W. 178)

## EDUCATION, WALES

The Government of Maintained Schools (Change of Category) (Wales) Regulations 2015

ISBN 978-0-348-11121-7

£4.25

W2373/07/15 ON